DISWYDDO OHERWYDD GORMODEDD

CYNLLUN IAWNDAL DISWYDDO

Bydd Cwmni CYNNAL yn mabwysiadu'r un trefniadau a Chyngor Ynys Môn wrth ddelio gyda sefyllfaeoedd o ddiswyddo oherwydd gormodedd, ac yn talu yr un lefel o fuddion / daliadau â'r Cyngor.

1. Mae'r Cwmni wedi mabwysiadu'r darpariaethau canlynol mewn sefyllfaoedd lle mae CYNNAL yn wynebu sefyllfa o ddiswyddo.

2. Nid oes gan staff gyda llai na dwy flynedd o wasanaeth hawl i daliadau iawndal diswyddo.

3. I'r gweithwyr â lleiafswm o 2 flynedd o wasanaeth :

a. tâl iawndal diswyddo yn ddibynnol ar oed a gwasanaeth ar ddyddiad y diswyddo fel y canlynol:

- 1.5 wythnos o dâl ar gyfer bob blwyddyn llawn o wasanaeth di-dor.

b. i'r gweithwyr rheiny sydd dan 55 oed budd-daliadau pensiwn a grynhowyd wedi'u gohirio tan oed ymddeol.

c. i'r gweithwyr rheiny sydd dros 55 oed taliad o fudd-daliadau pensiwn a grynhowyd yn syth.

4. Ni wahaniaethir rhwng taliadau diswyddo gwirfoddol a gorfodol.